

This is an Open Access document downloaded from ORCA, Cardiff University's institutional repository: <https://orca.cardiff.ac.uk/id/eprint/180064/>

This is the author's version of a work that was submitted to / accepted for publication.

Citation for final published version:

Marks, Rhiannon 2025. Cofio, Anghofio ac Ansadio: golwg ar Hen Bethau Anghofiedig Mihangel Morgan yng ngoleuni 'Cofio' gan Waldo Williams. Llên Cymru 48 (1) , pp. 33-62. 10.16922/lc.48.3

Publishers page: <https://doi.org/10.16922/lc.48.3>

Please note:

Changes made as a result of publishing processes such as copy-editing, formatting and page numbers may not be reflected in this version. For the definitive version of this publication, please refer to the published source. You are advised to consult the publisher's version if you wish to cite this paper.

This version is being made available in accordance with publisher policies. See <http://orca.cf.ac.uk/policies.html> for usage policies. Copyright and moral rights for publications made available in ORCA are retained by the copyright holders.



**Cofio, Anghofio ac Ansadio: golwg ar *Hen Bethau Anghofiedig* Mihangel Morgan yng ngoleuni ‘Cofio’ gan Waldo Williams**

**Rhiannon Marks**

Pan gyhoeddwyd *Hen Bethau Anghofiedig* gan wasg y Lolfa yn 2017, cynhaliwyd digwyddiad i’w lansio yn Amgueddfa Cwm Cynon yng nghanol Aberdâr ar adeg Calan Gaeaf y flwyddyn honno. Erys nifer o bethau yn y cof ynghylch y noson: Jeremy Turner yn perfformio rhannau o’r gyfrol gan ddod â hi’n fyw yn ei ffordd ddihafal ei hun; Mihangel Morgan yn cael tynnu ei lun gyda’r darlun gwreiddiol sy’n sail i glawr y gyfrol – llun hynod gan Kim James-Williams o hen dŷ gwledig, ac wyneb yn ymrithio o’r bryn oddi tano (sbŵci, yn wir); ond yn anad dim, cofiaf am y cacennau ysbryd. Mae’n debyg y bu Mihangel yn brysur yn eu paratoi y prynhawn hwnnw, ac wrth i’r gynulleidfa adael fe’i hanogwyd i gymryd ysbryd bach melys fel swfenîr o’r nofel iasoer yr oedd yr awdur newydd ei lansio. Lansiad i’w gofio yn ddiau, ond dewisaf hefyd anghofio rhai manylion, sef mai cael a chael oedd imi gyrraedd Aberdâr y noson honno, oherwydd imi, yn yr anghofrwydd a ddaw i rai sydd newydd gael babi rai wythnosau ynghynt, anghofio’r ddalen yn cynnwys y cwestiynau a baratois i’w gofyn i’r awdur a gorfod troi trwyn y car yn ôl i Gaerdydd i’w hôl. Gwae gadeirydd heb *aide-mémoire*.

Y mae’r broses ‘gofio’ (ac ‘anghofio’ o ran hynny) yn greiddiol i’r gyfrol *Hen Bethau Anghofiedig*. Fe’i disgrifir fel ‘stori ysbryd iasoer’ yn y broliant, ac er ei bod ar ryw wedd yn nofel am hen dŷ bwganllyd mewn pentref dychmygol yng nghanolbarth Cymru, aiff i’r afael hefyd â thynged yr iaith Gymraeg a’i diwylliant. Wrth i berchnogion y tŷ dwrio i elfennau o hanes a anghofiwyd, daw elfennau anghysurus o’r gorffennol i darfu ar y presennol. Amcan yr erthygl hon felly yw cynnig darlenniad estynedig o’r nofel hon gan Mihangel Morgan – nofel a gyrhaeddodd restr fer Llyfr y Flwyddyn 2018 – ond na dderbyniodd odid ddim sylw

beirniadol hyd yma ac eithrio adolygiadau adeg ei chyhoeddi.<sup>1</sup> Eir ati yma i ystyried y berthynas ryngdestunol rhwng *Hen Bethau Anghofiedig* a cherdd eiconig Waldo Williams, ‘Cofio’, ac wrth ddadansoddi’r testunau yn gyfochrog, gobeithir taflu goleuni newydd ar y nofel a’r gerdd fel ei gilydd. Yn sail i’r dadansoddiad, tynnir yn benodol ar gysyniad yr ‘unheimlich’ er mwyn archwilio’r modd y mae’r testunau llenyddol yn ansadio’r darllenydd. Ystyrir nofel Mihangel Morgan yng nghyd-destun y stori arswyd ôl-fodernaidd, cyn ystyried goblygiadau stori arswyd mewn diwylliant llenyddol lle y mae’r iaith o dan fygythiad.

### **Cofio ac Anghofio**

Cyn bwrw golwg ar y testunau llenyddol, priodol yw cychwyn trwy ystyried rhai agweddau ar y weithred gofio. Fel y dengys Jens Brockmeier wrth olrhain hanes ‘cofio’ a’i arwyddocâd cymdeithasol: ‘from ancient times until modernity, memory and remembering were thought of as something positive, while forgetting, by contrast, had negative connotations.’<sup>2</sup> I Platon, roedd y cysyniad o ‘anamnesis’ yn golygu cofio’n ôl i ryw ffurf ddwyfol o wybodaeth gynhenid a oedd gan unigolyn cyn iddo gael ei eni, tra bo’r rhai na allent gofio yn y fath fodd wedi eu tynghebu i yfed o ddyfroedd afon Lethe, sef dyfroedd anghofrwydd. Oddi ar hynny, dadleua Brockmeier fod cofio yn weithred a gaiff ei hystyried yn gadarnhaol a bod cofio’n gyhoeddus hyd heddiw yn rhan annatod o ddisgwrs gwledydd y Gorllewin – meddylier am yr holl weithredoedd o gofio sydd gan gymdeithasau i gadw cofnod am eu ffordd o fyw. Cyfeiria Brockmeier at symbolau (gweledol) a dathliadau i gofio am unigolion a sefydliadau neu ddigwyddiadau arwyddocaol a phwysleisia fod cofio yn aml yn weithred gyhoeddus i’w rhannu ag eraill, a gofynna ‘is there a country, a region, a culture in which no temples of Memory have been erected?’<sup>3</sup> Rhy Brockmeier hefyd sylw penodol i gofio fel gweithred sy’n cysylltu’r gorffennol, y presennol a’r dyfodol trwy greu gofod symbolaidd:

this symbolic space allows for a continuous flow of actions, narratives, images and other texts from one generation to the next, in this way preserving and transmitting theoretical and practical knowledge and formative experiences from times past.<sup>4</sup>

Yn ôl y dyfyniad hwn felly, mae i'r gofod symbolaidd swyddogaeth arwyddocaol iawn ac mae'n cwmpasu pob math o weithredoedd sy'n trosglwyddo gwybodaeth rhwng cenedlaethau. Yr awgrym a geir yw bod y weithred gofio yn llwyr ddibynnol ar ymrwymiad – hynny yw, er mwyn i'r 'gofod' uchod ddod i fod, rhaid bod rhywun ar y naill law yn ystyried rhywbeth yn werth ei drosglwyddo ac ar y llaw arall yn ystyried bod yr wybodaeth honno'n werth ei derbyn a'i chofio. Down yn ôl at y gofod hwn maes o law wrth ystyried y testunau llenyddol.

### **'Cofio' gan Waldo Williams**

Cyn troi at *Hen Bethau Anghofiedig* Mihangel Morgan, priodol yw dechrau gyda'r gerdd y benthycir llinell ohoni yn deitl i'r nofel sef 'Cofio' gan Waldo Williams.<sup>5</sup> Wrth ystyried y ddau destun ynghyd, y nofel a'r gerdd, caniateir inni archwilio'r berthynas ryngdestunol sydd ar waith. Yn ei thrafodaeth ar ryngdestunoldeb, awgryma Julia Kristeva fod pob testun llenyddol yn cynnwys 'intersection of textual surfaces'.<sup>6</sup> Golyga hyn yn y lle cyntaf fod testun yn cynnwys perthynas gyfathrebol rhwng awdur a darllenydd (ryngdestunoldeb llorweddol), ond awgryma fod pob testun hefyd mewn perthynas â thestunau a'i rhagflaenodd (ryngdestunoldeb fertigol). Mae'r ail berthynas hon yn arbennig o arwyddocaol yn achos awdur ôl-fodernaidd fel Mihangel Morgan: awdur y mae cyfeiriadau ryngdestunol bwriadol yn rhan amlwg iawn o'i arddull.

Mae'n debyg y cyfansoddwyd y gerdd 'Cofio' gan Waldo Williams pan oedd yn ymweld â'i gyfaill Wili Jenkins, Hoplas,<sup>7</sup> yn Sir Benfro ac fe'i cyhoeddwyd am y tro cyntaf yn rhifyn mis Medi 1931 *Y Ford Gron*. Ar hyd y degawdau daeth y gerdd yn enwog ymhlith

darllenwyr Cymraeg: yn destun gosod mewn ysgolion, heb sôn am gael ei chynnwys mewn blodeugerddi megis *Hoff Gerddi Cymru*<sup>8</sup> sy'n ymgais i dynnu ynghyd ganon o'r cerddi Cymraeg mwyaf poblogaidd. Mae bywyd y gerdd y tu hwnt i gloriau cyfrol yn dyst i'w phoblogrwydd. Fe'i rhoddwyd ar gân, a meddylier hefyd am y poster eiconig, 'Cofio', a gyhoeddwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn y 1970au ac a fu ar waliau mewn dosbarthiadau Cymraeg ledled y wlad, lle ceir geiriau'r gerdd o dan ddarlun o un o gromlechi Sir Benfro. Dyna ichi wedyn yr ymgyrch i gofio man cyfansoddi 'Cofio' yn Rhoscrowdder lle dadorchuddiwyd bwrdd gwybodaeth yn 2016.<sup>9</sup> Fe'n cyflyrir fel twristiaid llenyddol i beidio ag anghofio 'Cofio'.

Gadewch inni ein hatgoffa ein hunain o'r testun ei hun.<sup>10</sup> Awgryma Alan Llwyd yn ei gofiant i Waldo fod 'Cofio' yn perthyn i '[g]yfnod cynnar, prentisaidd y bardd, cyfnod y canu telynegol, syml'.<sup>11</sup> Mae lle i ddadlau, er hynny, nad telyneg seml mo 'Cofio' o bell ffordd gan ei bod yn codi cwestiynau athronyddol cymhleth am y broses gofio, am etifeddiaeth ddiwylliannol ac am drosglwyddiad rhwng cenedlaethau. Adroddir y gerdd yn hwyr yn y dydd – 'cyn elo'r haul o'r wybren' – ac am ei bod hi'n machlud (ar lawer ystyr), erfynia'r bardd am gael cymryd 'un funud fach' i gofio cyn i rai pethau fynd yn angof am byth. Myfyria ar dreigl amser wrth oedi 'i gofio am y pethau angofiedig / ar goll yn awr yn llwch yr amser gynt'. Canolbwynt y gerdd yw dadfeiliad diwylliannol yn ei ystyr ehangaf. Cyfeiria at greadigaethau dynol ryw, yn bensaernïaeth – 'anheddu bychain a neuaddau mawr' – ac yn gynnyrch artistig – 'y chwedlau cain a chwalwyd ers canrifoedd'. Awgrymir bod yr hen systemau cred wedi eu hanghofio – 'y duwiau na wya neb amdanynt 'nawr'. A'r elfen olaf yn y rhestr hon o 'bethau anghofiedig' yw iaith fel dull mynegiant:

A geiriau bach hen ieithoedd diflanedig,

Hoyw yng ngenau dynion oeddynt hwy,

A thlws i'r glust ym mharabl plant bychain,

Ond tafod neb ni eilw arnynt mwy.

Sylwer ar y cyfeiriadau somatig yma – y 'genau', y 'glust' a'r 'tafod' – sy'n ein hatgoffa o'r berthynas bwysig honno rhwng yr iaith a'r corff, a phwysigrwydd pobl fel cynheiliaid iaith yn eu hymwneud â'i gilydd fel cymunedau o siaradwyr. Fodd bynnag, unwaith y collir siaradwyr – yn '[d]ynion' ac yn '[b]lant bychain' – nid yw'r 'geiriau bach' a fu gynt yn rhan o ieithoedd byw, cymunedau o siaradwyr o bob cenhedlaeth, bellach yn cael eu harfer gan neb. Heb y siaradwyr, ansefydlogir y berthynas rhwng geiriau a'u hystyron (yr arwydd a'r arwyddedig), a gwelir system iaith yn gwegian. Mae'n ddarlun iasol o ddiwedd iaith ond hefyd yn ddiwedd ar ffordd o fyw i gymuned ieithyddol benodol.

Yn y pennill nesaf, bron na ellir dychmygu'r bardd yn camu'n ôl i edrych ar y cynfas yn ehangach, wrth iddo ystyried hanes '[c]enedlaethau dirifedi daear'. Wrth drafod breuder bodolaeth, myfyria ar yr hyn sy'n weddill ar ôl dyddiau pobl: 'A erys ond tawelwch i'r calonnau / fu gynt yn llawenychu a thristáu?' Fe'n trawir gan y gair 'tawelwch' yma sy'n gyferbyniad llwyr i fwrlwm y bywydau y mae'n deisyfu cofio amdanynt. Ar ddiwedd cerdd o fyfyrion ar ddirywiad, dadfeiliad a diflaniad, dwyseir yr ansicrwydd ynghylch y dyfodol gan gwestiwn olaf y bardd wrth iddo holi – 'a oes a'ch deil o hyd mewn cof a chalon, / Hen bethau angofiedig teulu dyn?'.<sup>12</sup>

Wrth drafod diwedd glo 'Cofio', awgryma Mererid Hopwood bod 'troi cystrawen cwpleddi clo'r ddau bennill olaf yn gwestiwn [...] rywsut yn agor cil y drws i rywfaint o obaith, eto nid yw'n ddigon i argyhoeddi'r darllenydd bod y bardd yn disgwyl atebion cadarnhaol'.<sup>12</sup> Cytunaf y ceir yma ansicrwydd, yn ddi-os, ond ceir yma rywbeth cwbl iasol hefyd yn y modd y gofynnir y cwestiwn olaf fel petai i'r gwagle ('a mi yn unig', meddai), gan nad yw'n debygol y daw ateb o gwbl, heb sôn am ateb cadarnhaol. Yn y foment hon, saif

Waldo bron fel petai ar wahân i lif amser ei hun ar groesffordd rhwng y gorffennol a'r dyfodol wrth sylweddoli mai'r weithred gofio yn y presennol yw'r cwlwm cyswllt digon brau sy'n dal y cyfnodau hyn ynghyd mewn amser. Mae potensial y cwlwm i ddatod yn ansadio'r bardd a'r darllenydd yntau yn ei dro. Yn hyn o beth, gellir mentro awgrymu ein bod yn nhiroedd yr 'unheimlich'.

Cysyniad a ddaeth o'r Almaeneg yw'r 'unheimlich' sef o waith y seicolegydd, Ernst Jentsch, i ddechrau ('Zur Psychologie des Unheimlichen', 1906), ac yna yn fwy adnabyddus, efallai, o waith enwog Sigmund Freud ('Das Unheimliche', 1919). Fe'i datblygwyd mewn amryfal ffyrdd gan ddeallusion ym meysydd llenyddiaeth ac athroniaeth, ac ar ei symlaf, mae'n mynd i'r afael â'r teimlad o brofi'r anghyfarwydd yn y cyfarwydd. Cyfieithwyd y term i'r Saesneg fel 'the uncanny' a chrynhwir y cysyniad orau gan Nicholas Royle fel a ganlyn:

The uncanny involves feelings of uncertainty, in particular regarding the reality of who one is and what is being experienced. Suddenly one's sense of oneself [...] seems strangely questionable.<sup>13</sup>

Y gair a saif allan yma yw'r 'ansicrwydd' ynghylch realiti, wrth i rywun brofi rhyw sylweddoliad ynghylch yr hunan neu'r byd o'u cwmpas. Awrgyma Nicholas Royle mai hyn sy'n nodweddu'r 'uncanny' fwyaf: 'its 'un-' unsettles time and space, order and sense.'<sup>14</sup> Mae'n debyg mai 'annaeorol' a 'rhyfedd' yw cyfieithiad Geiriadur yr Academi o'r term Saesneg, 'uncanny',<sup>15</sup> ac 'annaeorol' yw'r term a ddefnyddiwyd gan Llŷr Gwyn Lewis yn ei ddarlith 'Nodau Annaeoroldeb'.<sup>16</sup> Temtir rhywun hefyd i dynnu ynghyd ansoddeiriau fel 'anghartrefol' (o ddychwelyd at yr 'unheimlich' yn yr Almaeneg sy'n wrthbwynt i 'heimlich' sef 'cartrefol'), 'anghyfarwydd' neu 'ansad' er mwyn cyfleu'r cysyniad yn y Gymraeg. Fel mae'n digwydd defnyddiwyd y ferf 'ansadio' yn aml iawn gan Lewis yn 'Nodau Annaeoroldeb' ac i mi mae'n cynnig ffordd dda o awgrymu effaith yr 'unheimlich' ar y sawl

sy'n ei brofi.<sup>17</sup> Yn unol â diffiniad GPC, mae lle i ddadlau bod 'ansadrwydd' yn rhyw fynd i'r afael â'r cyflwr unigryw a throthwyol hwn a ddaw i darfu ar y cyfarwydd neu'r sefydlog.

Gellir dadlau mai'r ansadrwydd hwn sydd wrth graidd y cwpledi clo yn 'Cofio'. Wrth i'r pethau anghofiedig alw ar y bardd – bron fel drychiolaethau o gyfnod blaenorol – ceir sylweddoliad iasol bod ffyrdd o fyw yn dod i ben, ac ansicrwydd ynghylch yr hyn a ddaw ar lawer ystyr. Mae'r cwpledi penagored yn agor y drws i gwestiynau pellach ynghylch y profiad ei hun a'r hunan: cwestiynau megis, a oes unrhyw un arall ar wyneb daear yn cofio? Ac os nad oes, yna beth yw 'cofio' beth bynnag? Beth yw goblygiadau anghofio? Beth yw ebargofiant? O ystyried 'Cofio' yng nghyswllt yr 'unheimlich', yr hyn a welir yw fod myfyrdod ynghylch y gorffennol yn ansadio'r bardd yn y presennol, a dwyseir yr ansadrwydd gan y ffaith ei fod yn brofiad unigol i'r bardd ('a mi yn unig') ac ni wŷr a oes unrhyw un arall yn profi'r un fath.

Dadleuwyd llawer tro fod 'Cofio' yn gerdd am ddyfodol y Gymraeg ac o'i darllen yng nghyd-destun pryderon ynghylch dyfodol yr iaith yn ystod yr ugeinfed ganrif, mae hynny'n ddehongliad digon teg. Noda Alan Llwyd, er enghraifft, ei bod yn '[g]erdd delynegol' ag iddi 'naws ac awyrgylch hiraethus-ddwys, a gwir bryder am ddyfodol y Gymraeg'.<sup>18</sup> Â Mererid Hopwood ati i'w thrafod yng nghyd-destun cerddi eraill Waldo'n ymwneud â'r Gymraeg<sup>19</sup> a mentra Ned Thomas awgrymu bod 'tranc yr iaith Gymraeg yn islais gref yn y gerdd, er nad oedd y bardd ifanc, mwy na thebyg, yn llwyr ymwybodol o hyn'.<sup>20</sup> Gan na chrybwyllir y Gymraeg yn uniongyrchol fel y cyfryw – 'geiriau bach hen ieithoedd diflanedig' yw'r union eiriad – gellir ei darllen fel cerdd sy'n trafod diwylliannau yn dirwyn i ben ar raddfa ehangach, sydd efallai'n fwy ysgytwol fyth. Yn hyn o beth, mae lle i ddadlau mai'r ddwy agwedd flaenaf yn y testun yw 'amser' a'r weithred 'gofio' ei hun, ac yn wir, arwyddocâd y gydberthynas rhyngddynt. Archwilir y modd y mae'r weithred gofio yn cyfannu'r hollt rhwng gwahanol gyfnodau mewn amser – y presennol a'r gorffennol – gan greu gofod symbolaidd,

‘y symbolic space’ chwedl Brockmeier uchod.<sup>21</sup> Y broses gofio sy’n dod â’r gofod hwn i fod; gofod sy’n cysylltu gwahanol gyfnodau mewn amser ac yn caniatáu’r llif cyson o wybodaeth rhwng gwahanol genedlaethau – ‘actions, narratives, images and other texts’ yn ôl Brockmeier.<sup>22</sup> Wrth i’r bardd yn ‘Cofio’ fyfyrir ar fregusrwydd y gofod hwn, caiff ei ansadio gan yr holl wybodaeth am y ddynoliaeth – ‘yr hen bethau anghofiedig’ – sy’n angof gan nad oes neb i’w chofio. Wedi’r cyfan, ‘galw’n *ofer*’ a wnânt sy’n awgrymu ar y naill law nad oes neb yn dewis eu cofio, ond hefyd bod cofio yn gofyn am ymrwymiad gan bobl fel gweithred ymwybodol ac yn awgrymu eu bod yn ffaith. Ceir tyndra rhwng amhosibilrwydd cofio’r hyn sy’n anghofiedig a’r awgrym bod y pethau anghofiedig hyn yn sicr wedi bod. Down yn ôl at ‘Cofio’ maes o law ond gadewch inni nawr droi at waith Mihangel Morgan a’i nofel *Hen Bethau Anghofiedig* lle ceir myfyrdod pellach ar ‘gofio’.

## **Mihangel Morgan**

Mae cofio yn ganolog i waith yr awdur ôl-fodernaidd, mewn gwirionedd, er y gallai ymddangos fel arall ar yr olwg gyntaf. Ar adeg cyhoeddi ei weithiau llenyddol cynnar yn y 1990au, labelwyd Mihangel Morgan yn ‘fandal o lenor’ gan John Rowlands – ‘[un] sy’n gwneud popeth y mae’r diwylliant Cymraeg yn ei wahardd’.<sup>23</sup> Cyfeiriwyd ato hefyd fel ‘y drylliwr delwau, y dychanwr, a’r un sydd wedi gwrthio rhychwant ein llenyddiaeth i wythiennau dieithr, megis babi wedi ei ddwyn yn cael ei wrthio mewn coets ar hyd tirluniau ôl-ddiwydiannol.’<sup>24</sup> Nid oes dwywaith nad oedd rhyddiaith arbrol, cymeriadau ecsentrig a thriciau naratif ôl-fodernaidd yn cynnig ysgytwad i ddarllenwyr Cymraeg y 1990au a fagwyd ar realaeth. Er hynny, mae’r cyhuddiad o fod yn ‘fandal’ yn un difrifol ar ryw wedd gan awgrymu dyhead i ddifrodi neu ddinistrio. Deuoliaeth fawr y rhyngdestunoldeb bwriadol yn nhestunau ôl-fodernaidd Mihangel Morgan yw bod ei ergyd yn dibynnu ar gofio’r testun

gwreiddiol y mae'n ei adleisio neu'n ei barodio. Cymerer y gyfrol *Kate Roberts a'r Ystlum a storïau eraill* (2012) er enghraifft, lle gwelir Mihangel Morgan yn tynnu ar y traddodiad llenyddol Cymraeg. Ceir ym mhob stori gyfeiriad at lenor neu ddarn canonaidd o lenyddiaeth Gymraeg, ac mae ergyd y straeon yn llwyr ddibynnol ar adnabyddiaeth o'r testun 'gwreiddiol'. Yn wir, gwahoddir y darllenwyr yn ôl at y testunau 'gwreiddiol' y maent yn eu hadleisio – i gofio amdanynt a'u hailddarllen. Fel y dadleuais mewn man arall, law yn llaw â'r arbrofi, felly, gellir synhwyro pryder eithaf ceidwadol ynghylch dyfodol yr iaith Gymraeg a'i diwylliant.<sup>25</sup>

Mae'r pryder hwn i'w weld yn nifer o destunau llenyddol Mihangel Morgan<sup>26</sup> ond diau y daw'r pryder hwn i'w benllanw gyda chyhoeddi'r ddwy gyfrol: *Hen Bethau Anghofiedig* (2017) ac *Hen Ieithoedd Diflanedig* (2018). Gellid yn rhesymol eu hystyried fel pâr yn y modd y mae eu teitlau'n fwriadol iawn yn adleisio llinellau yn 'Cofio' Waldo Williams. Yn ogystal, mae i'r ddwy debygrwydd pynciol i'r graddau eu bod yn archwilio gwahanol agweddau ar dranc ieithyddol a diwylliannol. Canolbwyntio ar ddadansoddi'r nofel a wneir yng ngweddill yr erthygl hon ond cyhoeddir trafodaeth ar y cerddi hwythau gennyf maes o law yn archwilio'r modd y delweddir tranc iaith yn y farddoniaeth.

### ***Hen Bethau Anghofiedig* a'r haenau naratif**

Nofel ysbryd ôl-fodernaidd yw *Hen Bethau Anghofiedig* – testun aml haenog sy'n gweithredu ar dair lefel naratifol. Fel y mae dol Rwsiaidd yn cynnwys amryw o ddoliau y tu mewn iddi, ceir yma naratif o fewn naratif o fewn naratif. Maddeuer rhywfaint o ofod yma er mwyn sefydlu'r stori yn fras cyn troi at ystyriaethau cysyniadol.

Ar y lefel symlaf, y mae'n 'stori ysbryd iasoer' fel yr awgryma'r broliant ar gefn y llyfr. Y brif naratif yw hanes Merfyn Taylor yn etifeddu 'Llest Ucha' a fu'n gartref i hen fodryb iddo o'r enw Mona Moffat ym mhentref Cwmhwsmon, nid nepell o dref Aberdyddgu.

Dyma ni'n ôl felly yn y dref ffuglennol honno a fu'n gefnlen i amryw o nofelau Mihangel Morgan.<sup>27</sup> Datgelir hanes cymeriad Merfyn fesul tipyn a'r trafferthion a gafodd wrth adnewyddu'r hen dŷ gyda'i bartner Harri a'r modd y daw i ddeall rhagor am Anti Mona, ei chartref a'r ardal lle'r oedd hi'n byw. Ail gartref i Merfyn yw 'Llest Ucha', felly, lle y daw gyda'i bartner a'i deulu i dreulio'r gwyliau fel dihangfa o fywyd Llundainig. Yn ystod eu cyfnod yn yr hen dŷ ymddangosiadol fwganllyd, daw profiadau annisgwyl ac ymddangosiadol anesboniadwy i'w rhan sy'n peri i Harri a'i deulu ddychwelyd i Lundain a gadael Merfyn ar ei ben ei hun yng Nghwmhwsmon.

O fewn stori Merfyn ymgorfforir haen naratifol arall lle y cyflwynir stori'r fodryb, y ddiweddar Mona Moffat – cymeriad nad yw'n ymddangos yn uniongyrchol yn y nofel ond cawn glywed ei hanes drwy gyfrwng y dogfennau personol a adawyd yn ei hen ddesg yn 'Llest Ucha'. Teflir y darllenydd i haen naratifol arall drwy gyfrwng y *mise en abyme* hwn, a chynigia'r dogfennau ffuglennol hyn lais arall i'r nofel wrth i gymeriad Mona ddatgelu'r hyn a ddigwyddodd, yn ystod ei phlentyndod, rhyngddi a DB – bachgen o dyddyn Pentir gerllaw. Fe'i treisiwyd ganddo ac wedyn câi ei phlagio ganddo fel oedolyn wrth iddo ymyrryd â'i bywyd hi mewn amryw o ffyrdd e.e. creodd ddol ohoni fel bod modd iddo ei 'haddoli' ond y weithred ryfeddaf a'r hyn a wylltiaid Mona fwyaf oedd fel y deuai DB i ganu wrth ei drws yn ei 'iaith ffug ei hun' yn oriau mân y bore.

Dyna ddwy haen naratif felly, ac yn ffrâm am y straeon hyn, ceir stori y teithiwr ffuglennol sy'n honni iddo glywed hanes bywyd Merfyn wrth iddynt gyd-deithio ar drên. Y traethydd hwn i bob pwrpas sy'n rhannu'r stori gyda'r darllenwyr – nid yn annhebyg i gymeriad Walton yn y nofel gothig Mary Shelley, *Frankenstein*, wrth iddo adrodd hanes Victor – nofel arall ag iddi dair haen naratifol. Ni ddysgwn odid ddim am y traethydd eithr ei fod yn gyfaill ysgol i Merfyn ac nad oeddent wedi gweld ei gilydd ers dros ddeugain mlynedd. Ar y diwrnod penodol a ddarlunnir yn y nofel y mae'r ddau yn digwydd teithio ar

yr un trê, ond fel yr awgryma Aled Islwyn – ‘daw’n weddol amlwg o’r dechrau nad yw’r cledrau sy’n eu cario ar eu siwrnai aeafol yn rhan o unrhyw rwydwaith reilffyrdd gynabyddedig.’<sup>28</sup> Yn ddirybudd, daw’r trê i stop cyn pen y siwrnai ac wedi cyfnod ar blatfform Llanhowys<sup>29</sup> yng nghanol unman, â’r ddau mewn taci tra pheryglus drwy’r tywyllwch i Aberdyddgu. Wrth graffu ar *Hen Bethau Anghofiedig*, daw’n amlwg bod i bob haen storiol yn ei thro ei helfennau iasoer ei hun.

### **Y stori ysbryd ôl-fodernaidd**

Yn ôl Maria Beville, un o brif nodweddion y stori ysbryd ôl-fodernaidd o’i chymharu â’r stori ysbryd glasurol yw’r newid pwyslais o ran arwyddocâd yr ‘ysbryd’.<sup>30</sup> Ystyrir mai yn Oes Fictoria y gwelwyd cyfnod aur y stori ysbryd Saesneg a hynny o dan ddylanwad y traddodiad Gothig, gydag awduron megis Sheridan Le Fanu, Algernon Blackwood ac M. R. James yn arloesi o ran y ffurf. Yn straeon ysbryd clasurol y cyfnod hwn, yn aml daw ffigwr yr ysbryd i darfu ar drefn o fewn y stori ac apelir at ymwybyddiaeth y darlennydd o faterion epistemolegol yn anad dim. Hynny yw, disgwylir i’r darlennydd gredu yn yr ysbryd at bwrpas y naratif ac agorir y drws i ystyried materion yn ymwneud â gwirionedd ac ystyr y goruwchnaturiol. Er na ellir synied am draddodiad o ffuglen ysbryd i’r un graddau efallai yn y Gymraeg, mae’r casgliad *Rhywbeth yn Trwblo* yn cynnig ymgais i dynnu ynghyd ddetholiad safonol o straeon ysbryd a gyhoeddwyd yn ystod y ddwy ganrif a hanner ddiwethaf gan rai o brif awduron y traddodiad llenyddol Cymraeg gan gynnwys W. J. Gruffydd, Kate Roberts, Islwyn Ffowc Elis a Gwyn Thomas ymhlith eraill. Awgryma’r golygydd, Dafydd Glyn Jones, fod y straeon ysbryd Cymraeg hyn at ei gilydd yn ‘rhannu’r un nodweddion â’r rhai Saesneg’.<sup>31</sup>

Mewn ffuglen ôl-fodern, er hynny, gwelir newid yn rôl yr ysbryd yn ôl Beville - ‘the ghost is present not to raise doubt about Truth or reality, but to prompt social questions about difference’.<sup>32</sup> Awgryma ymhellach:

the postmodern ghost is not a troubling source of horror or anxiety. It cannot fully occupy the role of the abject or destabilize our sense of reality when that reality is, in itself, suspect. As such, in postmodern literature and film, the function of the ghost is to manifest radical ambiguity.<sup>33</sup>

Wrth archwilio haenau naratif *Hen Bethau Anghofiedig*, yr hyn a’n tery yw y tynnir ar ystod o fotiffau a berthyn i naratifau arswyd ac wrth wneud hynny, cynigia’r nofel sylwebaeth arnynt. Yn stori Merfyn, ceir motiffau o ddiwylliant poblogaidd Eingl-Americanaid yr ugeinfed ganrif yn ymwneud ag elfennau goruwchnaturiol sy’n ymylu ar fod yn chwerthinllyd – dyna ichi yr hen dŷ diarffordd bwganllyd sy’n llawn synau gwichlyd, y digwyddiadau rhyfedd yn ystod y nos, y ddol sy’n symud o’i rhan ei hun ac wedyn y *séance* a gynhelir gan Avril er mwyn cymuno gydag ysbrydion. Law yn llaw â hyn gweir cyfeiriadau at goelion gwerin Cymreig parthed ysbrydion i’r stori megis y gri annaearyl sy’n dwyn i gof y gyhyraeth, a rhagargoelion marwolaeth megis y ffigur ysbrydaidd sy’n ymddangos cyn i blentyn neu fam farw ar enedigaeth. Yn y dogfennau *mise en abyme* wedyn, tynnir ar fotiffau a berthyn i’r nofel Gothig Fenywaidd<sup>34</sup> – portreedir Mona fel ffigur y ddioddefwraig sy’n cael ei phlagio, nid gan y goruwchnaturiol, ond gan rym a gormes y gwryw mewn cymdeithas batriarchaidd. O ystyried y gwahanol fotiffau hyn ynghyd yr hyn a geir felly yw *pastiche* o nofel iasoer sy’n archwilio gwahanol naratifau diwylliannol ynghylch esbonio’r anesboniadwy – nid yn annhebyg ar brydiau i ffilmiau parodi megis *Scary Movie* (2000). Nid ein perswadio fel darllenwyr am fodolaeth ysbrydion yw’r nod eithr archwilio agweddau ar destunoldeb ac ystyron diwylliannol yn ymwneud â’r ‘arallfydol’ honedig.

Pwysleisia Brian McHale<sup>35</sup> fod a wnelo llenyddiaeth ôl-fodernaidd yn bennaf ag archwilio ontolog testun a gwelir yn *Hen Bethau Anghofiedig* ymgais i archwilio gwahanol naratifau'n ymwneud ag 'aflonyddu' neu 'haunting' a benthyg y term Saesneg. Gwelir hyn gliriaf efallai yn y stori ffrâm, lle crëir naws iasoer gan y dull traethu ymddangosiadol annibynadwy. Ni ellir ymddiried yn llwyr yn naratif y traethydd a ddywed yn y rhagair ffuglennol ei fod 'wedi golygu a diwygio wrth ailadrodd y stori ryfedd hon a gefais gan Merfyn Taylor'.<sup>36</sup> Ni wyddys pwy ydyw'r traethydd ac eithrio ei fod yn hen ffrind i Merfyn, ond cawn ein hatgoffa yn gyson mai ef sy'n rheoli'r naratif mewn sylwadau megis: 'rwy wedi hepgor y rhannau hyn gan eu bod yn brin o ddiddordeb imi.'<sup>37</sup> Ac yn nes ymlaen, ceir: 'Yma mae'n werth talfyrru rhan o stori Merfyn eto am fod ei atgofion am y dyddiau nesaf yn fanwl ond heb ddigwyddiadau o bwys.'<sup>38</sup> Torrir ar rediad stori Merfyn gan ymadroddion o'r fath sy'n cymylu'r ffiniau rhwng y bydoedd ontologol yn y testun ac fe'n hatgoffir fod yma 'bresenoldeb' arall fel petai – bron nad yw'n 'ghost writer', neu rith awdur o fath sy'n adrodd y stori i'r darllenydd ar ran cymeriad Merfyn.

Anesmwythir y darllenydd hefyd gan siwrnai'r traethydd ar y trêen a dry yn fwyfwy sinistr wrth iddi fynd rhagddi, gan adleisio drama absŵrd Saunders Lewis, *Yn y Trêen*.<sup>39</sup> Canolbwynt y ddrama honno yw'r sgwrs rhwng teithiwr a gard drên wrth iddynt deithio ar yr hen lein rhwng Caerfyrddin ac Aberystwyth. Ansadir y gynulleidfa gan y modd y chwaraeir â ffiniau gofodol yn y ddrama – ni wyddys i sicrwydd i ble y mae'r trêen yn mynd, ac a yw'r gorsafoedd yn bodoli ai peidio, a thry hyn yn alegori o gyflwr Cymru: 'rheilffordd yn darfod, gwlad ar ddarfod, pob stesion yn farw a'r nos yn cau arnon ni'.<sup>40</sup> Yn *Hen Bethau Anghofiedig* profa'r teithwyr hwythau daith ryfedd drwy orsafoedd marwaidd ar eu ffordd i Aberdyddgu, a cheir trafodaeth ar gyflwr Cymru, ond yr elfen arall sy'n ansadio'r darllenydd yw'r modd y dechreu'r traethydd fyfyrir ar ei fodolaeth ei hun. Wrth iddo edrych arno'i hun yn y ffenestr ceir yr olygfa ganlynol:

Yn nŵch diwaelod y gwydr, prin y gallwn adnabod f'adlewyrchiad fel fi fy hun.  
Edrychwn yn ddieithr. Roedd golwg gas, rwnnachlyd arna i. Drwy *chiaroscuro*'r  
adlewyrchiad ymddangosai rhych fertigol dwfn rhwng f'aeliau, ac roedd corneli'r geg  
yn tynnu'r gwefusau lawr mewn ystum surbwch, pwdlyd. Fe deimlwn, yn wir, fod y  
dieithryn hwnnw yn bersonol hollol wahanol i mi fy hun a'i fod yn byw mewn  
bydysawd cyfochrog. Lle tywyll iawn oedd hwnnw ac efallai yn hytrach na bod mewn  
trên yn eistedd ac yn gwrando ar stori ryfedd hen ffrind. Roedd hwn yn symud trwy  
amser ar ymweliad â'r gorffennol, neu ynteu'n mynd ar un naid i'r dyfodol pell.<sup>41</sup>

Sylwer yn y dyfyniad uchod ar y modd y cyfosodir adnabyddiaeth yr adlewyrchiad o'i wyneb  
yn y gwydr gyda dieithrwch. Dyma ni'n ôl yn nhiroedd ansadrwydd neu'r 'unheimlich' wrth  
i'r traethydd ei hun brofi'r anghyfarwydd yn y cyfarwydd. Mae'r profiad fel pe bai'n amharu  
ar rediad amser (rhywle rhwng y 'gorffennol' a'r 'dyfodol' sylwer), ac yn tynnu'n groes i  
drefn a rheswm. Wrth i'r traethydd gwestiynu ei fodolaeth ei hun yn y fath fodd, cyfyd  
cwestiynau dyrys ynghylch ei hunaniaeth a dibynadwyedd ei naratif a theflir y darllenydd  
yntau oddi ar ei echel.

Goferir rhwng bydoedd ontolegol hefyd wrth i'r traethydd synhwyro fod rhywun yn ei  
wyllo yn yr 'orsaf ddiorsaf',<sup>42</sup> gan awgrymu bod cymeriadau'n symud rhwng haenau naratif  
y nofel – 'yn y gwagle o'm cwmpas dyfalwn fod rhyw elfen neu enaid, hyd yn oed, wedi  
llithro o stori Merfyn ac wedi ymuno yn anweledig â mi yn y nos.'<sup>43</sup> Yn yr un modd, yn y  
diwedd glo bwriadol amwys, gadewir i'r darllenydd ystyried beth a ddigwyddodd i Merfyn  
wrth iddo aros am dacs i a'r unig beth a ddywed y traethydd yw: 'ond wrth ei ochr, ac ychydig  
y tu ôl iddo, safai ffigur anferth o dal a thywyll.'<sup>44</sup> Nid yw'n cynnig llawer o esboniad, ond yr  
awgrym (cwbl anrhesymegol ar ryw wedd) yw y gallai DB, y cymeriad yn y naratif *mise en  
abyme*, fod yn ei ddilyn. Oherwydd natur boliffonig y nofel ôl-fodernaidd fel ffurf, ac wrth i'r

haenau naratif oferu ar draws ei gilydd, ansadir y darllenydd gan y profiad darllen ei hun – yn fwy efallai na chan y digwyddiadau honedig ‘frawychus’.

*Yn Hen Bethau Anghofiedig* ceir adegau ansadiol sy’n tynnu sylw at ystyriaethau testunol a naratifol, ac mae hyn yn arbennig o wir am olygfeydd yn y nofel lle mae ‘Cofio’ gan Waldo Williams fel pe bai’n bresenoldeb chwareus sy’n hofran dros ein profiad o ddarllen y testun. Efallai mai’r olygfa fwyaf trawiadol lle y teimlir hyn yw’r ‘diwrnod bythgofiadwy’ lle’r â Merfyn i ymweld â’r hen bentref, sef casgliad o adfeilion hen fythynnod ger pentref Cwmhwsmon. Mae hi’n ddiwrnod Calan Gaeaf ac yn ‘dechrau nosi’ (‘cyn elo’r haul o’r wybren’, fel petai) pan gaiff Merfyn brofiad ysgytwol:

Gwelais fod golau yn ffenestri pob un o’r adfeilion bach. Yn wir, doedden nhw ddim yn adfeilion mwyach, eithr yn dai cyflawn a phob un a’i do yn gyfan, a drysau a ffenestri gwydr a waliau llawn lle bu bylchau a cherrig drylliedig [...] Allwn i ddim bod yn siŵr fy mod i’n sefyll yn yr un man – ond gwyddwn nad oeddwn i wedi symud cam – ac roedd y pentre byw wedi diflannu a’r pentre marw wedi dod yn fyw[...] Roedd y gorffennol wedi ymrithio ac atgyfodi o’m cwmpas. Nid fy nychymyg oedd hyn ond gwir orgyffyrddiad rhwng y presennol a diwedd y pedwardegau [...] Dwn i ddim os oeddwn i wedi cwmpo drwy ryw fath o dwll mewn amser yn ôl i’r gorffennol, neu a oedd y gorffennol wedi cael ei sugno yn ôl i’n hamser ni fel y gallwn i weld yr hen bentre bach fel yr oedd e yn ei ddydd. Pam? Dwn i ddim.<sup>45</sup>

Gwêl ddarlun o fywyd pentrefol – ‘criw o ddynion yn clebran â’i gilydd [...] menywod yn mynd a dod rhwng y tai, y drysau ar agor; plant yn chwarae’.<sup>46</sup> Bron nad yw cerdd Waldo wedi ymrithio o’i flaen. Mae’r traethydd yn y nofel yn gyndyn iawn o dderbyn yr hanesyn hwn (‘Doeddwn i ddim yn ei gredu’<sup>47</sup>) ond fel darllenwyr y nofel ôl-fodern rhaid cofio nad realaeth o reidrwydd yw’r maen prawf. Yr hyn sy’n ddiddorol o safbwynt y darllenydd yw’r

modd y defnyddir llithriad amser neu ‘time slip’ - techneg gyffredin mewn ffuglen wyddonias ‘lle mae rhywun o’r presennol yn diarwybod gamu’n ôl mewn amser, neu daro’n ddamweiniol ar ryw ddimesiwn arall.’<sup>48</sup> Yn y nofel hon, mae’n fodd o archwilio natur amser ei hun a’r modd y gall naratif a’r dychymyg rychwantu gwahanol gyfnodau mewn amser. Ar lefel y plot hefyd mae’n arwyddocaol oherwydd mai’r daith hon mewn amser, lle’r ymrithia’r gorffennol o flaen Merfyn sy’n tanio ei ddiddordeb yn y gorffennol ac yn peri iddo fynd yn ôl at hanes yr ardal a dysgu rhagor am y murddunnod. Try hefyd at lenyddiaeth Gymraeg a’r Gymraeg ei hun – iaith a fu gynt yn angof ganddo.

Os yw Waldo Williams yn ei unigrwydd yn ‘Cofio’ yn dyheu am i rywun gofio’r ‘pethau angofiedig’ – yr ‘aneddau bychain’, ‘y chwedlau cain’ a ‘geiriau bach hen ieithoedd diflanedig’ – wele un ymgeisydd posibl ar ffurf y cymeriad Merfyn a grëwyd gan Mihangel Morgan. Yn yr un modd ag y mae Calan Gaeaf yn noson lle dethlir cymylu’r ffiniau rhwng y presennol a’r cynfyd; lle’r honnir bod y meirw yn cerdded ymhlith y byw; felly hefyd yn achos y ffiniau rhwng testunau llenyddol – rhwng cerdd Waldo ac ymateb creadigol Mihangel Morgan iddi. Yn wir, fe’n gwahoddir fel darllenwyr i symud rhwng y gwahanol fydoedd yn y nofel ysbryd ôl-fodernaidd hon a phrofi rhyw fath o *déjà-vu* – cerdd gyfarwydd Waldo yn islais i brofiad ansadiol Merfyn.

### **Ystyriaethau ôl-drefedigaethol**

Mae’r ‘unheimlich’ yn gysyniad hynod berthnasol wrth archwilio’r stori ysbryd gan ei bod yn genre sy’n seiliedig ar y syniad o ailymweld – yr ysbryd, neu’r *revenant* o’r gorffennol a ddaw i darfu ar drefn a rheswm y presennol. Awgryma Maria Beville, er hynny, fod a wnelo’r ‘unheimlich’ mewn stori ysbryd ôl-fodernaidd ag ystyriaethau diwylliannol ehangach: ‘the ghost is present as a kind of social figure, not simply the dead returned to haunt, but a manifestation of cultural death’.<sup>49</sup> Yn hyn o beth, tynna ar ddadl Nicholas Royle

sy'n dadlau bod a wnelo'r 'unheimlich' â datod rhai o faterion cymdeithasol, gwleidyddol a diwylliannol cyfnod: '[it is]necessarily bound up with analysing, questioning and even transforming what is called "everyday life".'<sup>50</sup>

O safbwynt cyd-destun diwylliannol y nofel *Hen Bethau Anghofiedig*, mae'n werth ystyried y modd y mae'r ffuglen iasoer hon yn cynnig sylwebaeth ddiwylliannol ddigon ansadiol ar brydiau ar ddyfodol yr iaith Gymraeg a'i diwylliant. Efallai nad yw'r cyswllt hwn rhwng yr 'unheimlich' a phryder ynghylch dyfodol y Gymraeg yn gwbl annisgwyl. Yn ei hymdriniaeth ag ysbrydion mewn llenyddiaeth o Gymru, dadleua Jane Aaron yn ei herthygl ddadlennol, 'Haunted Wales', fod amryw o fwganod fel petaent yn ymddangos er mwyn atgoffa darllenwyr ynghylch y gorffennol ac er mwyn annog parhad y diwylliant:

the role of many ghosts which haunt Welsh literature is [...] to serve as reminders of their culture's long history; their still as yet unfinished business is to aid the survival of Welsh ethnicity per se.<sup>51</sup>

Gan ystyried cyd-destun *Hen Bethau Anghofiedig* felly fel nofel ysbryd ôl-fodernaidd a hynny mewn diwylliant lleiafrifol, mae ystyriaethau ôl-drefedigaethol o bosibl yn dwysau'r elfennau ansadiol neu'r 'unheimlich'. Yn wir, nid bodolaeth yr ysbrydion sy'n codi braw neu'n 'ansadio' eithr bregusrwydd y diwylliant a bortreedir ynddi. Ceir enghreifftiau drwyddi draw o freuder dogfennau ysgrifenedig – boent yn bapurau personol a gaiff eu llosgi neu'n llyfrau mewn iaith annealladwy i'w darllenwyr – sydd yn eu tro yn codi cwestiynau ynghylch bregusrwydd y diwylliant llenyddol y mae'r nofel ei hun yn gyfrannog ohono.

Drwyddi draw yn y nofel archwilir gwahanol agweddau ar imperialaeth ddiwylliannol sy'n symptom o ddiwylliant a drefedigaethwyd. Fe'i gwelwn yn benodol yn agweddau Merfyn a Harry pan ddônt i dreulio amser yng Nghwmhwsmon am y tro cyntaf. Llundain yw canolbwynt bywyd y ddau ar ddechrau'r nofel a daw'r ddinas honno i gynrychioli'r

Metropolis neu'r 'canol' sy'n gysylltiedig â phŵer a chynnydd, tra bo pentref anghysbell Cwmhwsmon yn cynrychioli'r 'province' neu'r 'periphery' iddynt. Ystyrier er enghraifft y weithred o adnewyddu'r hen dŷ; nid byw yno yw'r bwriad eithr ei ddefnyddio'n ysbeidiol fel ail gartref: 'lle bach tawel i ddod am dipyn o seibiant o'r hen ddinas fawr'.<sup>52</sup> Eir ati i newid enw'r tŷ o'r Gymraeg i'r Saesneg a thry 'Llest Ucha' yn 'Little Nest' am nad yw'n ddigon dealladwy i'w cymheiriaid dros y ffin. Yng geiriau anwybodus Harri, 'fydd dim un o'n ffrindiau ni'n gallu gweud yr enw 'na. Beth yw ei ystyr ta beth?'<sup>53</sup> A phan ddaw Harri a'i deulu i gyfarfyddiad gyda phobl leol (y 'province') tynnir ar ystrydebau cyfeiliornus ynghylch y Gymraeg fel petai'r bobl leol yn gwbl gyntefig eu ffyrdd:

Roedd Seroa yn credu y byddai pawb yn Cwsmon yn siarad dim ond Cymraeg. Chwarddodd Harri gan esbonio bod y rhan fwyaf o bobl y pentre wedi symud yno o Birmingham a bod pob un o'r 'brodorion' yn gallu siarad Saesneg yn iawn, beth bynnag, er bod ambell un o'r hen ffermwyr yn anodd ei ddeall, ond go brin y byddai hi, Seroa a Cosmo yn gorfod delio â'r rheina.<sup>54</sup>

Sylwer ar y modd dilornus y defnyddir y gair 'brodorion' gan y cymeriad uchod a'r modd y caiff y ffermwyr Cymraeg eu hiaith eu trin fel yr 'arall' trwy gyfeirio atynt fel 'rheina'. Diffnia Kirsti Bohata yr 'arall' yng nghyd-destun ôl-drefedigaethedd fel a ganlyn: 'this 'other' is a recognizable but different entity, against which the 'I' or 'self' or 'norm' can be defined. Yn achos y nofel, gwelir mai'r 'norm' i deulu Harri yw eu bydolwg Seisnig, Llundain-ganolog ac na allant ddirnad posibilrwydd diwylliannol gwahanol i'w heiddo nhw.

Ceir nifer o olygfeydd sy'n darlunio ymyrraeth negyddol teulu Harri â'u cynefin Cymreig newydd. Ac eithrio Merfyn a ddaw maes o law i werthfawrogi'r ardal, nid oes neb yn ymddiddori yn yr 'hen bethau anghofiedig', chwedl Waldo, a hanes y rhai a fu'n byw yn y parthau hyn. Pan â Cosmo i grwydro drwy'r 'hen anheddau' ac adfeilion yr hen bentref gyda'i synhwyrdd metelau, daw i'r casgliad nad oes 'dim byd o werth yn y tŷ hwn'.<sup>55</sup> Mae'r

pwyslais wrth gwrs ar werth materol, a disgrifir Cosmo'n mynd drwy'r tŷ 'heb arlliw o barch'.<sup>56</sup> Yn yr un modd, darlun o ymyrraeth ansensitif ag ecoleg frau a geir wrth i Avril, ffrind Harri o Lundain, drawsnewid yr ardd:

dywedodd Avril [...] ble a beth y bydden ni'n ei blannu ym mhob rhan o'r ardd, a beth oedd yn gorfod mynd. Roedd hyn yn cynnwys hen dderwen nobl roeddwn i'n meddwl y byd ohoni. Na, roedd rhaid ei rhwygo oddi yno a phlannu bambŵ yn ei lle. Dim ots i mi ddadlau i'r hen goeden fod yn tyfu yno ers canrifoedd. Gormod o gysgod, meddai Avril, ac roedd Harri yn cyd-fynd â hi.<sup>57</sup>

Ar lefel symbolaidd felly gwelir y modd y torrir y ddolen gyswllt â'r gorffennol mewn modd bwriadol iawn wrth ddewis peidio â chofio am goed sy'n rhan o gynefin yr ardal a'u disodli gyda phlanhigyn sy'n estron i'r ardal, sy'n lledaenu ac sy'n anodd iawn ei waredu.

Diau y gwelir y weithred fwyaf symbolaidd o ymyrraeth ac o ddileu diwylliannol yn y nofel pan aiff Harri ati i losgi llyfrau a phapurau Cymraeg Mona Moffat. Er bod Merfyn yn rhyw hanner ystyried cadw'r dogfennau – 'Tr'eni nad wy'n gallu darllen Cymraeg yn well' – ymateb dilornus Harri yw 'sdim pwrpas eu cadw nhw',<sup>58</sup> cyn eu rhoi ar goelcerth. Enynnir llid Gwenan gan hyn a chaiff Merfyn ei alw maes o law ganddi yn 'hen fandal o Lundain'<sup>59</sup> – sylw sydd, unwaith eto, yn atgyfnerthu'r tensiwn rhwng y 'metropolis' a'r 'province'. Yr hyn sy'n cythruddo Gwenan yw ei bod wedi addo i Mona y byddai'n trosglwyddo ei phapurau a'i llyfrau i'r Llyfrgell Genedlaethol ar ôl ei marwolaeth.<sup>60</sup> Gwelir felly'r tensiwn rhwng dyhead Gwenan i gofio am waith Mona Moffat a chadw'r cof diwylliannol yn fyw ar y naill law, a gweithred ddinistriol gan Harri am nad yw'r dogfennau o werth materol iddo.

O fynd yn ôl at sylw Jens Brockmeier ynghylch y cof fel 'gofod symbolaidd' rhwng gwahanol genedlaethau, yr hyn a welir yn *Hen Bethau Anghofiedig* yw ymyrraeth ar y gofod hwn sy'n amodi'r broses gofio. Wrth drafod y naratifau a gaiff eu trosglwyddo yn y gofod symbolaidd dywed Brockmeier eu bod yn cynnwys amryw o agweddau ar fywyd: 'narrative,

in fact, integrates an amazing diversity of forms of life that range from the spoken and written language to architecture and the arts.<sup>61</sup> Yr ‘hen bethau anghofiedig’, a defnyddio geiriau Waldo Williams; dyna yw’r naratifau -- y ‘geiriau bach’, y ‘chwedlau cain’, yr ‘aneddau bychain a neuaddau mawr’ a ‘champ a chelfyddyd’.<sup>62</sup> Â Brockmeier ymlaen i drafod cofio fel proses sy’n unigol ac yn dorfol ar yr un pryd ac fe’i amodir gan wahanol ffactorau cymdeithasol :

We remember according to several social frames that emphasize different aspects of our experienced reality. Those aspects that do not fit the collective frame of memory, and thus, are not passed on from one generation to another, will be forgotten.<sup>63</sup>

Diau fod trefedigaethedd yn agwedd allweddol bwysig sy’n effeithio ar y ‘ffrâm’ hon mewn diwylliannau lleiafrifol, ac felly’n amodi’r hyn a gofir a’r hyn a drosglwyddir. Yr hyn a welir yn *Hen Bethau Anghofiedig* Mihangel Morgan felly yw mor fregus yw’r cof diwylliannol a’r gallu i greu gofod symbolaidd er mwyn trosglwyddo naratifau mewn diwylliant lleiafrifol sydd o dan gysgod diwylliant mwyafrifol y Saesneg. Mewn gair, mae’n fyfyrdod ar anghofio.

Yn y cyswllt hwn, mae’n werth ystyried syniadaeth Ngũgĩ wa Thiong’o lle’r archwilia’r berthynas rhwng iaith a hunaniaeth cenedl mewn diwylliant a drefedigaethwyd.<sup>64</sup> Awgryma’n gryf fod dyrchafu ieithoedd y trefedigaethwyr uwchlaw ieithoedd lleiafrifedig yn rhan o brosiect trefedigaethu: ‘the domination of a people’s language by the language of the colonising nations was crucial to the domination of the mental universe of the colonised’.<sup>65</sup> Pwysleisia hefyd effaith trefedigaethu ar y cof diwylliannol a phwysigrwydd iaith fel cyfrwng i gof a hunaniaeth cenedl –

language as culture is the collective memory bank of a people’s experience in history [...] language carries culture, and culture carries, particularly through orature

and literature, the entire body of values by which we come to perceive ourselves and our place in the world.<sup>66</sup>

Mae'r syniadaeth hon, wrth gwrs, yn rhagdybio cyswllt hanfodaidd rhwng iaith a diwylliant, ac mae nifer wedi dadlau bod gwaith Ngŭgĩ yn broblemataidd yn y modd yr aiff ati i ddelfrydu ieithoedd brodorol yn y fath fodd.<sup>67</sup> Mae ei ymgyrch i herio imperialaeth yn seiliedig yn bennaf ar ddyrchafu rôl iaith yn hytrach nag archwilio ffactorau sosio-wleidyddol ac economaidd dyweder. Er hynny, o ystyried bod nofel Mihangel Morgan yntau yn tueddu at hanfodaeth wrth bwysleisio cydberthynas iaith a'r cof diwylliannol, bodlonir yma ar barhau i archwilio rhai o brif gysyniadau Ngŭgĩ, gan eu bod yn berthnasol i'r byd academiaidd Cymraeg.<sup>68</sup>

Wrth ystyried sylwadau Ngŭgĩ yng nghyd-destun y nofel dan sylw, yr hyn a welwn mewn gwirionedd yw darlun o iaith leiafrifedig ar ddibyn difodiant a diwylliant sy'n prysur edwino, yn rhannol o ganlyniad i rymoedd o du'r trefedigaethwr. Ceir darlun o fregusrwydd y Gymraeg fel iaith gymunedol ym mhob haen naratif yn ei thro. Yn stori Mona Moffat, gwelir y tensiwn rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yn ei dogfennau personol lle trafoda'r shift ieithyddol ym mhentref gwledig Cwmhwsmon: 'Roedd e'n bentre uniaith Gymraeg (yr unig eithriad oedd DB a'i deulu; efe oedd y cyntaf i wrthod ymdoddi'n ieithyddol i'n cymuned, ond daeth eraill wedyn wrth gwrs.)'<sup>69</sup> Mae'n symbolaidd hefyd y caiff ei threisio gan y DB hwn a hynny drwy gyfrwng y Saesneg.

Yn stori Merfyn, bron y gellid dadlau mai astudiaeth achos mewn effeithiau trefedigaethu yw'r cymeriad. Nid yw'n gwybod i ble y mae'n perthyn ac awgrymir yn y nofel ei fod yn ansicr o'i hunaniaeth ar lawer achlysur. Er enghraifft, pan aiff i'r dafarn leol i ganol trigolion y pentref:

Teimlai Harri yn anghyfforddus yno gan fod criw bach yn siarad iaith nad oedd ef yn ei deall. Teimlwn innau'n anghyfforddus hefyd fel dieithryn, crwtyn o'r de, fel dyn o'r ddinas ac fel gŵr dosbarth canol.<sup>70</sup>

Yn yr un modd, wrth iddo edrych ar hen luniau o'i deulu, fe'i darlunnir fel un nad oes ganddo glem yn y byd ynghylch hanes ei berthnasau a'u ffordd o fyw – 'byddai Mam wedi gallu ateb rhai o'r cwestiynau hyn ac enwi rhai o'r bobl yn yr hen ffotograffau gwelw ar y waliau, ond doedd hithau ddim ar gael i'w holi mwyach.'<sup>71</sup> Wrth golli ei fam, amharwyd ar drosglwyddiad y naratifau rhwng y cenedlaethau. Darlunnir hefyd freuder y trosglwyddiad ieithyddol yn sgil colli ei fam, wrth iddo ymbalfalu am 'eiriau anghofiedig yn iaith ei fam a aethai'n ddieithr iddo.'<sup>72</sup> Ni throsglwyddodd Merfyn y Gymraeg i'w blant, ac felly pan ddaw'n ôl i Gwmhwsmon, caiff ei ansadio wrth geisio ei siarad:

Peth anghyfarwydd ac annisgwyl i mi a fagwyd yn y cymoedd, ac ar ôl treulio oes yn Llundain, oedd i ddieithryn ddechrau siarad y Gymraeg fel'na. [...] dyma fi'n llunio rhyw fath o frawddeg yn yr hen iaith [...] ac am wn i dyna'r tro cyntaf i mi siarad peth tebyg i Gymraeg â neb ar wahân i Mam ers degawdau.<sup>73</sup>

Dyma'n ni'n ôl gyda'r 'unheimlich' unwaith yn rhagor, wrth i'r cymeriad gael ei ansadio a phrofi'r anghyfarwydd yng nghyswllt iaith a fu gynt mor gyfarwydd iddo.

Ceir darlun o effaith trefedigaethu ar y meddwl hefyd yn y modd y disgrifir natur yr addysg a dderbyniodd Merfyn yn yr ysgol. Canon llenyddol Seisnig a astudiwyd ganddo ac nid oedd testunau llenyddol Cymraeg yn rhan o'i brofiad darllen:

Doedd dim sylw wedi cael ei roi iddyn nhw yn ein hysgol ni lle roedd mwy o bwyslais ar Shakespeare a Jane Austen [...] Ond fy mhrif esgus, afraid dweud oedd nad oedd fy Nghymraeg yn ddigon da. Nace iaith y Mabinogion oedd iaith Mam na'r ysgol Sul na'n cymdogaeth ni.<sup>74</sup>

Yn y sylw hwn, eir i'r afael â chymhlethdod hunaniaeth cymeriad nad yw'n teimlo ei fod yn perthyn i'r diwylliant llenyddol am nad yw'n gallu cysoni ei famiaith gyda'r math o Gymraeg a wêl mewn print. Dyma'n wir yw byrdwn ei ansicrwydd ynghylch y Gymraeg. Yn nes ymlaen yn y nofel, pan dry Merfyn at ddarllen y Mabinogi, bron nad yw'r weithred o ddarllen yn y Gymraeg ynddi ei hun yn weithred wleidyddol iddo sy'n tynnu'n groes i'w addysg drefedigaethol: 'teimlwn y byddai'u darllen mewn cyfieithiad Saesneg, dim ots pa mor ragorol[sic], yn fradwriaeth, cystal â chyfaddef nad fy iaith i mo'r Gymraeg.'<sup>75</sup> Darlunnir y weithred hon o ddarllen a chofio am destunau'r gorffennol fel adeg o dröedigaeth i Merfyn ynghylch ei hunaniaeth Gymraeg:

Roedd y cyfan yn newydd ac yn ddieithr i mi ond yn gyffrous hefyd [...] Teimlwn fy mod yn ymweld â gwlad estronol ar y naill law, a oedd eto'n gyfarwydd ar y llall.

Wedi'r cyfan fy iaith i oedd hon a'n llên ni. Teimlwn fy hun yn llithro yn ôl mewn amser ac eto yn ddyfnach i rywbeth a oedd yn rhan o'm cynhysgaeth yn barod, rhan o'm cyfansoddiad i.<sup>76</sup>

A dyma ni'n ôl eto gydag ansadrwydd a phrofi'r anghyfarwydd yn y cyfarwydd. Daw darllen llenyddiaeth Gymraeg yn gyfrwng i'w dywys i diroedd dychmygus newydd a ffyrdd newydd o weld y byd. Y mae hefyd yn weithred fwriadol yn erbyn gormes trefedigaethu.

Wrth i Merfyn gofio'r 'hen bethau anghofiedig', gellid hanner disgwyl diweddglo hapus i ddiwedd ei daith ieithyddol, ond byddai hynny'n rhy gyfleus i'r awdur dan sylw. Wedi iddo ddychwelyd i Gwmhwsmon am y tro olaf, mae'n bygwth mynd yn 'syth yn ôl i Lundain'<sup>5</sup> wedi sorri'n llwyr gyda'r Lluest Ucha gan gefnu ar y ffordd hon o fyw. Diwedd goannelwig sydd i'w daith, ac mae ei dynged fel cymeriad yn amwys iawn – a yw Cymru'n colli un o'i siaradwyr newydd yn ôl i Lundain ynteu'n ei golli i'r bwgan mawr du sy'n ei ddilyn o'r orsaf? Nid oes wahaniaeth, a benthg geiriau Waldo – 'erys ond tawelwch'.

Os oes unrhyw obaith ynghylch dyfodol y Gymraeg yn y nofel iasoer hon, efallai mai yn naratif ffrâm y traethydd y gwelir llygedyn o hynny. Cofier mai'r traethydd hwn sy'n adrodd y stori gyfan i'r darllenydd a'i fod 'wedi golygu a diwygio', chwedl yntau, wrth ailadrodd y stori. Yn hyn o beth rydym yn nhirioedd metaffuglen, sef ffuglen sy'n tynnu sylw ati ei hun fel creadigaeth. A benthg dyfyniad cynhwysfawr Patricia Waugh am fetaffuglen:

In providing a critique of their own methods of construction, such writings not only examine the fundamental structures of narrative fiction, they also explore the possible fictionality of the world outside the literary fictional text.<sup>77</sup>

Tynnir sylw at oddrychedd naratifau lawer tro yn *Hen Bethau Anghofiedig* ac mae'n ffordd o archwilio goddrychedd 'realiti'. Sylwer ar y dyfyniad metaffuglennol hwn wrth i'r traethydd sôn am y profiad o wrando ar stori Merfyn: 'Ar y pryd, dim ond trwy'i stori ef roeddwn i'n byw. Rhyfedd fel y mae naratif rhywun arall yn gallu disodli hunaniaeth dros dro.'<sup>78</sup>

Awgrymir yma mor oddrychol yw naratif neu 'stori', ond hefyd awgrymir bod modd i rai naratifau ddominyddu ar rai eraill wrth inni greu ein 'realiti'. Fel y dywed Waugh ymhellach:

If our knowledge of this world is now seen to be mediated through language, then literary fiction (worlds constructed entirely of language) becomes a useful model for learning about the construction of 'reality' itself.<sup>79</sup>

Yr hyn sy'n ddiddorol yn y nofel yw'r modd y mae'r traethydd yn tynnu sylw at y ffaith ei fod wedi amodi'r llun sydd o'n blaenau fel darllenwyr. Hynny yw, mae'n cydnabod iddo ymyrryd â'r naratif a chreu ei 'realiti' ei hun:

Yn ogystal â chywiro'i iaith a chyfieithu cyfraniadau Harri, Dendy, Avril a'r lleill, yn ôl yr angen, bûm yn golygu stori Merfyn mewn ffordd arall. Rhwng ei ymweliadau â'r Lluest Ucha roedd ganddo ddigon i'w ddweud am ei fywyd a'i waith yn Llundain,

a oedd yn ymwneud yn bennaf â'i gysylltiadau ag enwogion bychain y ddinas honno.

Rwy wedi hepgor y rhannau hyn gan eu bod yn brin o ddiddordeb imi.<sup>80</sup>

Pwysleisia mai drwy ei lens ef y gwelwn y sefyllfaoedd a'i fod wedi Cymreigio iaith y cymeriadau a'u 'cartrefoli' (a bethyg term o faes astudiaethau cyfieithu).<sup>81</sup> Mae naratif y traethydd fel pe bai'n tynnu'n groes i'r stori a adroddir gan gymeriad Merfyn felly ac yn dangos ôl ymyrraeth. Yn y weithred o adrodd y naratif yn y fath fodd, y mae'n disodli hunaniaeth ieithyddol Saesneg y cymeriadau gyda sgwrs Gymraeg ac yn dewis adrodd eu hanes mewn ffordd sy'n tynnu'n groes i'r pwerau dominyddol. Trwy olygu'r iaith Saesneg a phrifddinas Llundain o'r naratif yn fwriadol, diau y gwelir ymgais i greu naratif Gymraeg sy'n fwriadol ddadleoli grym y metropolis. Mewn nofel ôl-fodernaidd sydd yn ei hanfod yn archwilio gwahanol naratifau, mae'n arwyddocaol felly fod ymyrryd â naratif yn y stori ffrâm yn weithred yn erbyn y trefedigaethu. A benthg geiriau Menna Elfyn mewn cerdd lle trafoda'r weithred o wrthsefyll grym pwerau dominyddol, dyma ymgais i '[g]anu alaw arall ar draws y brif dôn'.<sup>82</sup>

## Casgliad

Yn yr erthygl hon, cynigiwyd darlenniad estynedig o *Hen Bethau Anghofiedig* gan Mihangel Morgan, ac archwiliwyd y berthynas ryngdestunol rhyngddi a 'Cofio' Waldo Williams, gan daflu goleuni newydd ar y gerdd hithau. Trwy dynnu ar theori'n ymwneud ag astudiaethau'r cof a chysyniad yr 'unheimlich', archwiliwyd sut y mae'r ddau destun llenyddol uchod, er mor wahanol ydynt ar ryw wedd, yn ansadio darllenwyr ac yn eu cyflyru i ystyried yr hyn a olygir wrth 'gofio'.

Fe ddywedodd M. R. James un tro wrth drafod nodweddion stori ysbryd dda: 'put your reader into the position of saying to himself – "if I'm not very careful, something of this

kind may happen to me”.<sup>83</sup> Cyfeirio yr oedd at y stori ysbryd glasurol gyda’i helfennau goruwchnaturiol a amcanai godi braw ar ei darllenwyr, ond diau y gellid cymhwyso’r dyfyniad at nofel ysbryd ôl-fodernaidd Mihangel Morgan yntau. Efallai nad yw’r holl fotiffau a godwyd o’r stori ysbryd glasurol yno i godi braw fel y cyfryw, ond ceir yn *Hen Bethau Anghofiedig* rybudd iasol ac amserol ynghylch dyfodol bregus y Gymraeg ond hefyd yr ecoleg ddiwylliannol frau y mae’r nofel ei hun yn rhan ohoni.

Awgrymwyd ym maes astudiaethau’r cof fod diwylliannau’r Gorllewin yn profi argyfwng cof neu ‘memory crisis’<sup>84</sup> – nid yn unig argyfwng o ran y broses gofio a chadw gwybodaeth ond hefyd y cynnwys o ran yr hyn a gofir a’r hyn nas cofir. Fel y dywed Brockmeier – ‘as cultures change, so do their memory practices and their ideas of what is worth and desirable to be remembered.’<sup>85</sup> Gellid dadlau fod hyn yn fwyfwy problemus ac argyfyngus mewn diwylliannau lleiafrifol yn wyneb bygythiadau gan ddiwylliannau mwy dominyddol. Mae’r drafodaeth ar yr hyn sy’n ‘werth’ ei gofio yn greiddiol i *Hen Bethau Anghofiedig* ac yn y modd y mae’n archwilio bregusrwydd y cof diwylliannol yng Nghymru, gellid dadlau ei bod yn nofel sy’n enghreifftio’r argyfwng cof a’i oblygiadau penodol yng nghyswllt diwylliant lleiafrifol.

Yn wir, tybed nad yw’r modd yr archwilir cofio yn y nofel hon yn symptom o obsesiwn ehangach yn y diwylliant Cymraeg? Wrth drafod ffuglen Gymraeg ers troad y ganrif hon, awgryma T. Robin Chapman mai’r hyn sy’n ei nodweddu yw ei bod ‘mor drwyadl atgofus, mor awyddus i sôn wrth heddiw am ddoe’.<sup>86</sup> Meddylier hefyd cyn amled yr ymddengys y ferf ‘cofio’ yn hanes diwylliannol diweddar Cymru e.e. yn yr arwyddair ‘Cofiwch Dryweryn’; *Wyt ti’n Cofio?* Gwilym Tudur; y gyfres *Cof Cenedl*; Cofio’r Cewri; heb sôn am y gyfres deledu ‘Cofio’ a ddarlledwyd ar S4C a’r gyfres radio o’r un enw ar BBC Radio Cymru. Tybed a ddaeth yr adeg felly, i archwilio rhagor ar y ‘memory crisis’ uchod

yng nghyd-destun diwylliant cyfoes Cymraeg, a chraffu'n fanwl ar ddulliau cofio, yr hyn a gofir, ond hefyd yr hyn nas cofir?

---

<sup>1</sup> Aled Islwyn, 'Adolygiad o *Hen Bethau Anghofiedig*', *Barn*, 659/660 (Rhagfyr/Ionawr 2017/18), 78; Morgan Owen, *O'r Pedwar Gwynt*, 6 (Gwanwyn 2018), 38-39.

<sup>2</sup> Jens Brockmeier, 'Remembering and Forgetting: Narrative as Cultural Memory', *Culture and Psychology*, 16 (March 2002) 15-43.

<sup>3</sup> Brockmeier, 'Remembering and Forgetting: Narrative as Cultural Memory', 17.

<sup>4</sup> Brockmeier, 'Remembering and Forgetting: Narrative as Cultural Memory', 18.

<sup>5</sup> Waldo Williams, *Dail Pren*, pedwerydd argraffiad (cyhoeddwyd gan Wasg Aberystwyth, argraffwyd gan Wasg Gomer Llandysul, 1982), t. 78.

<sup>6</sup> Julia Kristeva, 'The Bounded Text', cyf. Thomas Gora, yn Leon S. Roudiez (gol.), *Desire in Language: A Semiotic Approach to Literature and Art* (New York: Columbia University Press, 1980), t. 65.

<sup>7</sup> Gweler Alan Llwyd, *Waldo: cofiant Waldo Williams 1904-1971* (Tal-y-bont: Y Lolfa, 2014), t. 146.

<sup>8</sup> Hoff Gerddi Cymru (Llandysul: Gwasg Gomer, 2000).

<sup>9</sup> Gweler y stori ganlynol ar BBC Cymru Fyw, 'Dadorchuddio plac i Waldo Williams' 26 Mai 2016 [Ar-lein]. Ar gael: [Dadorchuddio plac i Waldo Williams - BBC Cymru Fyw](#), cyrchwyd 3 Mehefin 2024.

<sup>10</sup> At bwrpas yr erthygl, defnyddir y fersiwn a gyhoeddwyd yn Waldo Williams, *Dail Pren*, pedwerydd argraffiad (cyhoeddwyd gan Wasg Aberystwyth, argraffwyd gan Wasg Gomer Llandysul, 1982), t. 78.

<sup>11</sup> Llwyd, *Waldo: Cofiant Waldo Williams 1904-1971*, t. 187.

<sup>12</sup> Mererid Hopwood, *Dychmygu Iaith* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2022), t. 37.

<sup>13</sup> Nicholas Royle, *The Uncanny* (Manchester: Manchester University Press, 2003), t. 1.

<sup>14</sup> Royle, *The Uncanny*, t. 2.

<sup>15</sup> [Geiriadur yr Academi | The Welsh Academy English-Welsh Dictionary](#)

<sup>16</sup> Llŷr Gwyn Lewis, 'Nodau Annaearoldeb', Darlith Goffa Syr Thomas Parry Williams 2022, *O'r Pedwar Gwynt* (27/7/22) [Ar-lein]. Ar gael: [Nodau annaeoroldeb | O'r Pedwar Gwynt](#), cyrchwyd 2/6/24.

<sup>17</sup> Gweler GPC am 'ansadwydd' - [Geiriadur Prifysgol Cymru](#) [gwelwyd 10/9/24]

<sup>18</sup> Llwyd, *Waldo: Cofiant Waldo Williams 1904-1971*, t. 148.

<sup>19</sup> Hopwood, *Dychmygu Iaith*, t. 31.

<sup>20</sup> Ned Thomas, *Llên y Llenor - Waldo Williams*. Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, 1985, t. 32

<sup>21</sup> Brockmeier, 'Remembering and Forgetting: Narrative as Cultural Memory', 18.

<sup>22</sup> Brockmeier, 'Remembering and Forgetting: Narrative as Cultural Memory', 18.

<sup>23</sup> John Rowlands, 'Chwarae â Chwedlau: Cip ar y Nofel Gymraeg Ôl-fodernaidd', yn Gerwyn Williams (gol.), *Rhyddid y Nofel* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1999), t. 181.

<sup>24</sup> Sioned Puw Rowlands, 'Mihangel Morgan: Rhwng Realiaeth a Beirniadaeth', yn John Rowlands (gol.), *Y Sêr yn eu Graddau: Golwg ar Ffurafafen y Nofel Gymraeg Ddiweddar* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2000), t. 213.

<sup>25</sup> Am ragor o wybodaeth gweler Rhiannon Marks, *Y Dychymyg Ôl-fodern: golwg ar ffuglen fer Mihangel Morgan* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2020), tt. 191-208.

<sup>26</sup> Gweler er enghraifft ei gyfrol gyntaf o ryddiaith, *Hen Lwybr a storïau eraill* (1992), lle ceir darlun o shifft ieithyddol yn y cymoedd oddi wrth y Gymraeg at y Saesneg; y nofel *Dan Gadarn Goncrit* (1999) lle yr awgrymir yn gryf bod darlithydd yn y Gymraeg, Maldwyn Taflun Lewis, yn gyfrifol am ladd merch fach – na ellir bod yn siŵr ai 'laith' ynteu 'Llên' yw ei henw; a *Pantglas* (2011), pan arweinir boddi'r cwm at wasgaru'r gymuned o siaradwyr Cymraeg a fu yn y pentref.

<sup>27</sup> Gweler Mihangel Morgan, *Dan Gadarn Goncrit* (Tal-y-bont: Y Lolfa, 1999); Mihangel Morgan, *Cestyll yn y Cymylau* (Tal-y-bont: Y Lolfa, 2007); *60* (Tal-y-bont: Y Lolfa, 2017).

<sup>28</sup> Islwyn, 'Adolygiad o *Hen Bethau Anghofiedig*', 78.

<sup>29</sup> Lleoliad ffuglennol ond gwerth nodi mai dyma'r man anghysbell a grybwyllir gan Mihangel Morgan yn ei nofel *Dan Gadarn Goncrit* (1999) pan leddir merch fach (na wyddys ai 'laith' ynteu 'Llên' yw ei henw) gan y darlithydd Maldwyn Taflun Lewis.

- 
- <sup>30</sup> Gweler Maria Beville, 'Postmodern Ghost Stories', yn Scott Brewster a Luke Thurston (goln), *The Routledge Handbook to the Ghost Story* (London: Routledge 2017), t. 448.
- <sup>31</sup> Dafydd Glyn Jones (gol.), *Rhywbeth yn Trwblo – Straeon Ysbryd gan ein Prif Awduron* (Bangor: Dalen Newydd, 2012), t. 6.
- <sup>32</sup> Beville, 'Postmodern Ghost Stories', t. 449.
- <sup>33</sup> Beville, 'Postmodern Ghost Stories', t. 446.
- <sup>34</sup> Gweler rhagymadrodd Diana Wallace ac Andrew Smith, 'Defining the Female Gothic', yn Diana Wallace ac Andrew Smith (goln), *The Female Gothic: New Directions* (London: Palgrave Macmillan, 2009), tt. 1-12.
- <sup>35</sup> Brian McHale, *Postmodernist Fiction* (London & New York: Routledge, 1987), t. 33.
- <sup>36</sup> Mihangel Morgan, *Hen Bethau Anghofiedig* (Tal-y-bont: Y Lolfa, 2017), t. 5.
- <sup>37</sup> Morgan, *Hen Bethau Anghofiedig*, t. 51.
- <sup>38</sup> Morgan, *Hen Bethau Anghofiedig*, tt. 87-88.
- <sup>39</sup> Saunders Lewis, *Yn y Trên* (1965).
- <sup>40</sup> Lewis, *Yn y Trên*, t. 12.
- <sup>41</sup> Morgan, *Hen Bethau Anghofiedig*, tt. 71-2.
- <sup>42</sup> Morgan, *Hen Bethau Anghofiedig*, t. 100.
- <sup>43</sup> Morgan, *Hen Bethau Anghofiedig*, t. 106.
- <sup>44</sup> Morgan, *Hen Bethau Anghofiedig*, t. 137.
- <sup>45</sup> Morgan, *Hen Bethau Anghofiedig*, t. 95.
- <sup>46</sup> Morgan, *Hen Bethau Anghofiedig*, t. 94.
- <sup>47</sup> Morgan, *Hen Bethau Anghofiedig*, t. 96.
- <sup>48</sup> Jones, *Rhywbeth yn Trwblo*, t. 7.
- <sup>49</sup> Maria Beville, 'Postmodern Ghost Stories', t. 449.
- <sup>50</sup> Nicholas Royle, *The Uncanny*, (Manchester: Manchester University Press, 2003), t. 23.
- <sup>51</sup> Jane Aaron, 'Haunted Wales', yn Scott Brewster a Luke Thurston (goln), *The Routledge Handbook to the Ghost Story* (London: Routledge 2017), t. 204.
- <sup>52</sup> Morgan, *Hen Bethau Anghofiedig*, t. 7.
- <sup>53</sup> Morgan, *Hen Bethau Anghofiedig*, t. 14.
- <sup>54</sup> Morgan, *Hen Bethau Anghofiedig*, t. 57.
- <sup>55</sup> Morgan, *Hen Bethau Anghofiedig*, t. 65.
- <sup>56</sup> Morgan, *Hen Bethau Anghofiedig*, t. 65.
- <sup>57</sup> Morgan, *Hen Bethau Anghofiedig*, t. 41.
- <sup>58</sup> Morgan, *Hen Bethau Anghofiedig*, t. 17.
- <sup>59</sup> Morgan, *Hen Bethau Anghofiedig*, t. 40.
- <sup>60</sup> Morgan, *Hen Bethau Anghofiedig*, t. 28.
- <sup>61</sup> Brockmeier, 'Remembering and Forgetting: Narrative as Cultural Memory', 38.
- <sup>62</sup> Williams, *Dail Pren*, t. 78.
- <sup>63</sup> Brockmeier, 'Remembering and Forgetting: Narrative as Cultural Memory', 23.
- <sup>64</sup> Ngũgĩ wa Thiong'o, *Decolonising the Mind – The Politics of Language in African Literature* (London: James Currey, 1986).
- <sup>65</sup> Ngũgĩ wa Thiong'o, *Decolonising the Mind*, t. 16.
- <sup>66</sup> Ngũgĩ wa Thiong'o, *Decolonising the Mind*, tt. 15-16.
- <sup>67</sup> Gweler Chinua Achebe
- <sup>68</sup> Trafodir ei waith yn: Lisa Sheppard, *Y Gymru Ddu a'r Ddalen Wen* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2018); Angharad Price *Ymbapuroli* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch 2021).
- <sup>69</sup> Morgan, *Hen Bethau Anghofiedig*, t. 122.
- <sup>70</sup> Morgan, *Hen Bethau Anghofiedig*, t. 59.
- <sup>71</sup> Morgan, *Hen Bethau Anghofiedig*, t. 13.
- <sup>72</sup> Morgan, *Hen Bethau Anghofiedig*, t. 10.
- <sup>73</sup> Morgan, *Hen Bethau Anghofiedig*, t. 24.
- <sup>74</sup> Morgan, *Hen Bethau Anghofiedig*, t. 130.
- <sup>75</sup> Morgan, *Hen Bethau Anghofiedig*, t. 130.
- <sup>76</sup> Morgan, *Hen Bethau Anghofiedig*, t. 131.

- 
- <sup>77</sup> Patricia Waugh, *Metafiction: The Theory and Practice of Self-Conscious Fiction* (London: Meuthen and Co., 1984), t. 2.
- <sup>78</sup> Morgan, *Hen Bethau Anghofiedig*, tt. 56-7.
- <sup>79</sup> Patricia Waugh, *Metafiction: The Theory and Practice of Self-Conscious Fiction*, t. 2.
- <sup>80</sup> Morgan, *Hen Bethau Anghofiedig*, t. 51.
- <sup>81</sup> Gweler gwaith Lawrence Venuti, *The Translator's Invisibility: A History of Translation* lle trafodir strategaethau cyfeithu yn cynnwys 'Domestication' sef Cartrefoli: 'an ethnocentric reduction of the foreign text to target-language cultural values, bring the author back home' 1995, T.20
- <sup>82</sup> Menna Elfyn, 'Cân y di-lais i British Telecom', *Eucalyptus* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1995), tt. 7-9.
- <sup>83</sup> M. R. James, 'Preface to *More Ghost Stories of an Antiquary*', yn S. T. Joshi (gol), *Count Magnus and Other Ghost Stories: The Complete Ghost Stories of M. R. James, Volume 1*, (New York: Penguin Books, 2005), t. 217.
- <sup>84</sup> Gweler, er enghraifft, Jan Assmann, *Das kulturelle Gedächtnis: Schrift, Erinnerung und politische Identität in frühen Hochkulturen* (Munich: Beck, 1992); Richard Terdiman, *Present past: Modernity and the memory crisis* (Ithaca, NY: Cornell University Press, 1993); David Gross, *Lost time: On remembering and forgetting in late modern culture* (Amherst, MA: University of Massachusetts Press, 2000).
- <sup>85</sup> Brockmeier, 'Remembering and Forgetting', t. 20
- <sup>86</sup> T. Robin Chapman, 'Meiddio mwydo'r madeleine', *O'r Pedwar Gwynt* (Gwanwyn 2025), 12.